# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 21 Mehefin 2022 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**:

Leanne Ahern, Cyngor Abertawe
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
Jennifer Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Adele Dunstan, Cyngor Abertawe
Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru
Louise Gibbard, Cyngor Abertawe
Mark Gosney, Cyngor Abertawe
Sian Harrop-Griffiths, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Adam Hill, Cyngor Abertawe
Steve King, Cyngor Abertawe
Andrea Lewis, Cyngor Abertawe
Allison Lowe, Cyngor Abertawe
Trudi Meyrick, Heddlu De Cymru
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lee Wenham, Cyngor Abertawe
Steve Wilson, Dŵr Cymru

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Yr Athro Chris Jones, Llywodraeth Cymru
Keith Reid, Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

## 1 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2022-2023.

**Penderfynwyd** y dylid ethol y Cynghorydd Andrea Lewis, Cyngor Abertawe yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2022-2023.

**Bu'r Cynghorydd Andrea Lewis (Cadeirydd) yn llywyddu**

## 2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2022-2023.

**Penderfynwyd** y dylid ethol Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2022-2023.

## 3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 4 Cofnodion.

**Cymeradwywyd** y cofnodion yn amodol ar y diwygiad canlynol:

Presenoldeb: Diwygio sefydliad Roger Thomas i ddarllen Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

## 5 Y Diweddaraf ar Gamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol.

Er na chafwyd unrhyw ddiweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol, gofynnodd Adam Hill i bob aelod statudol ymateb drwy e-bost mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol i sicrhau ei fod yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf.

## 6 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 7 Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl.

Amlinellodd Adam Hill, Cyngor Abertawe, y Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno'n flaenorol ar gyfer Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, a ddylai, er mwyn llywodraethu da, gael ei adolygu ar ddechrau Cyfnod Swydd newydd yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol.

**Fe’i cymeradwywyd** yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

1) Mae'r ddogfen yn cyfeirio at Aelodau Statudol a Phartneriaid Statudol – mae angen cysondeb;
2) 8c yn darllen "Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru";
3) 9c yn darllen "Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru".

## 8 Dwr Cymru - Cynllun Rheoli Draenio a Dwr Gwastraff (dros 25 mlynedd).

Rhoddodd Steve Wilson, Dŵr Cymru, gyflwyniad mewn perthynas â'r Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff.  Roedd hyn o ganlyniad i ofyniad newydd ar gwmnïau dŵr ledled Cymru a Lloegr.

Roedd y cyflwyniad yn amlinellu manylion y cynllun, yr amodau diffiniol a oedd yn cynnwys cynllun carthion, cynllun draenio a chynllun llifogydd brys ac yn amlinellu rôl:

- Byrddau Rhaglenni ar y Cyd – fe’i sefydlwyd i reoli cronfeydd ar y cyd a chytuno ar raglenni gwaith.
- Byrddau Prosiect – sy’n gweithio fel galluogwyr rhwng Byrddau Rhaglenni a Phrosiectau Cymunedol i gytuno ar gynlluniau adnoddau ac adeiladu achosion busnes.
- Prosiectau Cymunedol – sy’n gweithio gyda Byrddau Prosiectau Cymunedol i ddatblygu atebion i faterion llygredd a llifogydd lleol a'u rhoi ar waith.

Byddai cyfnod ymgynghori'n dechrau ar ddechrau mis Gorffennaf ac yn para am 10 wythnos. Ymgynghorir â rhanddeiliaid amrywiol er mwyn datblygu cyfleoedd i reoli glawiad mewn ffordd wahanol. Byddai cael gwared ar ddŵr wyneb o'r rhwydwaith carthffosydd yn her fawr i Gymru yn y 10-20 mlynedd nesaf. Roedd trafodaethau â Swyddogion y Cyngor eisoes wedi dechrau mewn perthynas â cham nesaf gwaith ailddatblygu Canol y Ddinas.

Diolchodd y Cadeirydd i Steve Wilson am ei gyflwyniad addysgiadol.

**9 Haf o Hwyl.**

Rhoddodd Mark Gosney, Cyngor Abertawe gyflwyniad ar y prosiect Haf o Hwyl a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2021.

Amlinellodd yr wybodaeth ganlynol:

Cynnydd;
Ystadegau ar gyfer y Gaeaf Llawn Lles;
Ystadegau ar gyfer y Gaeaf Llawn Lles 50+;
Arfarniad;
Camau nesaf.

Roedd y cyflwyniad hefyd yn cynnwys fideo a gynhyrchwyd y gellid ei weld drwy'r ddolen ganlynol:

BSLh264 - HD 1080p - HD 1080p.mov (dropbox.com)

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y cyflwyniad.

**10 Cerdded yn ein 'sgidiau ni.**

Gwahoddodd Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru bartneriaid i ddod i un o safleoedd y Gwasanaeth Tân er mwyn amlinellu eu gweithgareddau dyddiol a chadarnhau a ellid cydweithio/gweithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd. Awgrymwyd y gallai partneriaid eraill gynnig yr un cyfle oherwydd gallai fod themâu a allai fod o fudd i raglenni gwaith yn y dyfodol.

Roedd y Cadeirydd yn llwyr gefnogi'r cynnig a diolchodd i'r Prif Swyddog Tân am y gwahoddiad.

**11 Dinas Hawliau Dynol.**

Rhoddodd y Cynghorydd Louise Gibbard, gyda chefnogaeth Lee Wenham ac Adele Dunstan, Cyngor Abertawe, gyflwyniad ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r Ddinas Hawliau Dynol.

Amlinellodd y cyflwyniad y canlynol:

- Ein Hymrwymiad;
- Cynnydd hyd yma;

- Blaenoriaethau;
- Cynllun Gweithredu i bawb;
- Beth a ofynnwyd i'r Tîm Arweinyddiaeth yng Nghyngor Abertawe;
- Yr hyn yr oedd Cyngor Abertawe yn arwain arno ar hyn o bryd.

**Roger Thomas (Is-gadeirydd) fu'n Llywyddu**

Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar:

- Beth allai'r BGC ei wneud gyda'i gilydd yn fwy i ychwanegu gwerth nag yr oedd wedi'i wneud o'r blaen? Sut roedd y gwaith sy'n cael ei wneud yn cael effaith? Awgrymwyd bod "Dinas Hawliau Dynol" yn eitem reolaidd ar agenda'r Cydbwyllgor, lle gallai enghreifftiau o arfer da/dysgu a rennir dynnu sylw at y gwaith gwych sy'n cael ei wneud ym mhob sefydliad.
- Datblygu'r cynllun lles gan ganolbwyntio ar "hawliau".
- Ffrydiau gwaith i arwain a bwydo'n ôl i'r Cydbwyllgor.
- Roedd amseru'n broblem felly byddai angen cyfarfod ar wahân i drafod y gwahanol byncιau yr oedd angen eu gosod yn y cynllun.

Cadarnhaodd Lee Wenham fod y cynllun cyfathrebu a oedd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd wedi'i rannu â Thimau Cyfathrebu partneriaid. Byddai'r Arweinydd yn cyfarfod â phartneriaid allweddol yn y dyfodol agos i drafod holl gynnydd y Ddinas Hawliau Dynol. Yn ogystal â hyn, byddai arweiniad poced yn cael ei ddatblygu a'r gobaith oedd y byddem yn gallu cyhoeddi Abertawe fel Dinas Hawliau Dynol erbyn mis Rhagfyr.

**12 Y diweddaraf am yr Asesiad o Les Lleol.**

Cyflwynodd Steve King, Arweinydd y Tîm Gwybodaeth, Ymchwil a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol, Cyngor Abertawe adroddiad i nodi cynnydd ar yr Asesiad o Les Lleol 2022 ac amlinellu'r gofynion ar gyfer Cynllun Lles Abertawe erbyn 2023.

Awgrymwyd, oherwydd yr amserlenni, y dylid argymell y blaenoriaethau ar gyfer yr asesiad a fyddai'n cael eu hystyried drwy'r grŵp cynllunio ffurfiol a'r grŵp golygyddol i'r Cydbwyllgor drwy e-bost i sicrhau ei fod yn bodloni'r amserlen a amlinellir ym mharagraff 4.5. Fodd bynnag, teimlai rhai partneriaid y dylid cynnal cyfarfod penodol ychwanegol i oruchwylio'r allbwn/cynigion er mwyn gallu ystyried ffurf a chynnwys y Cynllun Llesiant yn llawn. Pwysleisiwyd y byddai angen cynnal y cyfarfod yn ystod y 4-6 wythnos nesaf a byddai ymrwymiad gan yr holl bartneriaid i fod yn bresennol yn hanfodol. Byddai angen i'r mynychwr/mynychwyr allu gwneud penderfyniadau strategol ar ran ei/eu sefydliad unigol.

Roedd angen eglurhad hefyd mewn perthynas â pharagraff 4.6 - a ellid drafftio'r amcanion cyn y cyfnod ymgynghori o 14 wythnos neu ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben?

**Penderfynwyd:**

1) Y bydd y Cydbwyllgor yn nodi'r adroddiad, gan gynnwys casgliad yr asesiad, diweddariad ar y comisiwn dadansoddi, a gofynion/cyfnodau allweddol tuag at y Cynllun Llesiant.

2) Bydd y Cydbwyllgor yn cymeradwyo sefydlu 'Grŵp Cynllun Lles', yn seiliedig ar yr ymagwedd a ddefnyddir ar gyfer y Grŵp Asesu Golygyddol ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r partneriaid statudol.

**13 Strategaeth, awgrymiadau, syniadau ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd (hyrwyddo'r BGC/Cynyddu ymwybyddiaeth).**

Gofynnodd Adam Hill am syniadau gan y Cydbwyllgor er mwyn gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd. Awgrymodd y dylid ychwanegu "Cyfleoedd Cyfathrebu" at y blaenoriaethau o fewn y fframweithiau perfformiad i dynnu sylw at ddigwyddiadau a gynlluniwyd er mwyn ymgysylltu â phob un o'r ffrydiau gwaith.  Awgrymodd hefyd y dylid ychwanegu eitem sefydlog at agenda'r Cydbwyllgor.

Dywedodd Sian Harrop-Griffiths ei fod yn debygol y byddai'r Bwrdd Iechyd yn gallu cynnig rhagor o gymorth yn ystod y misoedd nesaf gan eu bod wrthi’n ehangu eu trefniadau cyfathrebu.

**Cam gweithredu:** Gwneud "ymgysylltu" yn eitem sefydlog ar agenda'r Cydbwyllgor.

**14 Fframwaith Perfformiad/Adroddiadau Amlygu o'r 4 ffrwd waith.**

Cofnodwyd yr adroddiadau amlygu.

**15 Syniadau/Trefniadau'r Fforwm Partneriaeth ar gyfer y dyfodol.**

Gofynnodd Adam Hill am syniadau/pynciau gan bartneriaid ar gyfer y Fforwm Partneriaeth nesaf.

**Cam gweithredu:** Syniadau/pynciau i'w hanfon ymlaen at Leanne Ahern yn ystod yr wythnosau nesaf.

**16 Cefnogi Cais am Gyllid 2022/2023.**

Er gwybodaeth.

**17 Llythyr Craffu (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus).**

Er gwybodaeth.

**18 Llythyr Craffu (Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel).**

Er gwybodaeth.

**19 Llythyr oddi wrth Cadeirydd BGC Castell-nedd Port Talbot (Ffynnu yn y Gwaith).**

Er gwybodaeth.

## 20 Adborth ar yr Asesiad o Les gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol/Lywodraeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru.

Er gwybodaeth.

## 21 Rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.45 pm

**Cadeirydd**